

# Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty  
Athrofaol Llandochau, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
• Ansawdd Profiad y Claf.....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	21
4. Y camau nesaf .....	26
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	27
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	28
Atodiad C - Cynllun gwella .....	29

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 11 a 12 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC a Chynghorydd Gwyddonol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau o fynychu'r Adran Meddygaeth Niwclear yn yr ysbyty.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a bod y staff yn trin y cleifion mewn ffordd barchus a charedig. Gwelsom hefyd y gwnaed ymdrech sylweddol i ddarparu amgylchedd dymunol i'r cleifion drwy arddangos gwaith celf a lluniau ym mhob rhan o'r adran.

Roedd gwybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion am eu harchwiliad a'r buddiannau a'r risgiau cysylltiedig.

Gwelsom fod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn yr adran. Fodd bynnag, roedd llythyrau apwyntiadau a anfonwyd at gleifion yn Saesneg yn unig a gallai maint y testun olygu ei bod yn anodd i rai cleifion ei ddarllen.

Disgrifiwyd trefniadau addas i'r cleifion leisio pryder neu gŵyn am eu gofal. Er y gallai'r cleifion roi adborth, clywsom nad oedd adborth wedi cael ei gasglu'n rheolaidd gan y cleifion ers pandemig COVID-19.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud trefniadau i sicrhau bod llythyrau apwyntiadau yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dylid ystyried adolygu maint y testun a ddefnyddir
- Mae angen gwneud trefniadau i fynd ati i geisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ymweld â'r adran.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol iawn am y gwasanaeth roeddent wedi'i gael ac agwedd y staff.
- Roedd gwaith celf a lluniau'n cael eu harddangos er mwyn darparu amgylchedd dymunol i'r cleifion
- Roedd darpariaeth dda o wybodaeth i'r cleifion yn cael ei harddangos yn yr adran.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi lefelau cydymffurfiaeth dda â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Nodwyd gennym hefyd fod trefniadau addas ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a oedd yn mynychu'r adran.

Cawsom sicrwydd bod cytundeb trydydd parti ar waith ar gyfer gwasanaethau diogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys cymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol. Fodd bynnag, roedd y cytundeb ysgrifenedig a roddwyd i AGIC yn dangos ei fod wedi dirwyn i ben ym mis Mawrth 2022.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân, ac roedd trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo prosesau atal heintiau a dihalogi effeithiol yn yr adran.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau rhai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr a sicrhau eu bod yn dangos yn glir pryd y cawsant eu hadolygu a dyddiad yr adolygiad nesaf
- Mae angen i'r rhestr o'r cyfarpar gynnwys yr holl gyfarpar a ddefnyddir yn yr adran
- Mae angen i'r cytundeb trydydd parti ysgrifenedig ar gyfer gwasanaethau diogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys cymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol, ddangos ei fod wedi cael ei adnewyddu a'i fod yn gyfredol
- Dylid ystyried datblygu cynlluniau gweithredu ysgrifenedig yn dilyn gweithgarwch archwilio er mwyn dangos bod dadansoddiad wedi'i gynnal ac er mwyn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd/sy'n ofynnol a gweithgarwch dilynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd Lefelau Cyfeirio Diagnostig Lleol wedi cael eu pennu ac roeddent yn is na'r Lefelau Cyfeirio Diagnostig Cenedlaethol
- Dangosodd uwch-aelodau o'r staff ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng archwiliad clinigol ac archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i weithgarwch archwilio
- Roedd gwybodaeth ddefnyddiol am atal heintiau a materion rheoli a chanlyniadau archwiliadau yn cael ei harddangos yn glir yn yr adran i'r cleifion ei gweld.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Prif Weithredwr y bwrdd iechyd oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u dangos.

Dangosodd y staff eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u priod rolau yn yr adran.

Roedd yr adborth gan y staff yn holiaduron AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd y cofnodion hyfforddiant ar gyfer y staff, mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dilyn fformat cyson. Roeddent yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w maes gwaith a'u bod wedi asesu eu cymhwysedd.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd i AGIC lefelau cydymffurfiaeth dda â rhaglen hyfforddiant staff gorfodol y bwrdd iechyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y tîm yn ymddangos yn gyfeillgar ac yn hyrwyddo amgylchedd cefnogol i'r staff weithio ynddo
- Gwelsom lefel dda o gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant staff gorfodol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron. Nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn.

Mae'r ymatebion a'r sylwadau yn awgrymu bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn yr Adran Meddygaeth Niwclear, ym mhob maes. Y cwestiynau a arweiniodd at yr ymatebion mwyaf cadarnhaol oedd y rheini ynghylch gofal ag urddas a gwybodaeth i gleifion, a gwnaeth y cleifion sylwadau arbennig o gadarnhaol am y staff. Y prif awgrym ar gyfer gwella a wnaed gan y cleifion oedd y dylid darparu mwy o le ar gyfer ardaloedd aros a thriniaeth.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur am eu barn gyffredinol am y gwasanaeth, nododd 25 o'r 27 o gleifion a atebodd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' a nododd dau ei fod yn 'dda'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Roedd y gwasanaeth heddiw yn gyflym”*

*“Roedd yn syml. Dim problemau. Barod i helpu.”*

*“Hapus iawn â'r gwasanaeth a gefais yn ystod fy apwyntiad...”*

*“Roedd y nyrs a gefais i yn barod iawn i helpu, ac roedd yn ymddangos ei bod yn gyfarwydd â'i swydd...”*

*“Roeddwn i'n fodlon iawn ar y cyfan.”*

*“Mae pobl gyfeillgar yn yr ysbyty hwn.”*

*“Gofal ardderchog a staff hyfryd.”*

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*“Ardal aros fwy”*

*“Roedd yr ardal waith braidd yn gyfyng.”*

*“Byddwn i'n darparu safle mwy i'r staff. Maen nhw'n gwneud gwaith amhrisiadwy.”*

*“Cyflymu'r sgan.”*

*“Dim angen gwella, ystafell a lleoliad glân iawn ac ymlaciol.”*

*“Dydw i ddim yn meddwl y gallant wella. Maen nhw wedi bod mor dda i mi.”*

## Cadw'n iach

### Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom bosteri wedi'u harddangos yn glir yn yr adran yn hysbysu'r cleifion y dylid rhoi gwybod i'r staff os oeddent yn feichiog neu'n bwydo ar y fron.

Gwelsom hefyd amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd arall wedi'i arddangos yn yr adran a ger prif ardal y dderbynfa.

## Gofal ag urddas

### Gofal ag urddas

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd, gan ymgysylltu â nhw mewn ffordd garedig ond proffesiynol.

Roedd ystafelloedd newid unigol ar gael er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion pan oedd angen iddynt newid allan o'u dillad er mwyn cael archwiliad. Gwelsom hefyd fod drysau'r ystafelloedd archwilio yn cael eu cau pan fyddent yn cael eu defnyddio.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ystafell lle gallai'r cleifion siarad yn breifat â'r staff, heb gael eu clywed gan y bobl yn yr ystafell aros.

Dywedodd pob un o'r 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Hefyd, roedd y 27 o gleifion a atebodd yn cytuno bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i gleifion eraill glywed, roedd y 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno. Roedd pob un o'r 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn hefyd yn cytuno bod y staff yn gwrandao arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gasglu barn ac adborth gan y staff. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu parchu, roedd y deg aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno. Hefyd, roedd pob un o'r deg yn cytuno eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei roi i'r cleifion.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod dolen sain ar gael yn y dderbynfa a chadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn eu helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod system rheoli cofnodion wedi cael ei defnyddio i gaffael manylion cleifion. Esboniodd y staff y gellid defnyddio hyn i nodi'r cleifion y mae angen y gwasanaeth cyfieithu arnynt fel y gellid trefnu hyn mewn modd amserol.

Gwelsom bod rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Clywsom fod rhywfaint o'r staff sy'n gweithio yn yr adran ar gael i gyfathrebu â'r cleifion yn Gymraeg. Roedd poster hefyd yn cael ei arddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion y gallant gyfathrebu yn Gymraeg os byddant am wneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl nodi staff a oedd yn siarad Cymraeg am nad oeddent yn hyrwyddo hyn, er enghraifft, drwy wisgo bathodyn neu laniard i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Roedd arwyddion â phictogramau a chyfeiriadau wedi'u codio mewn lliw wedi'u harddangos i helpu'r cleifion a'r ymwelwyr i ganfod eu ffordd i'r adran.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael pelydr-X i'w gweld yn amlwg yn yr adran. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Hefyd, gwelsom fod gwybodaeth ysgrifenedig berthnasol yn cael ei harddangos i'r cleifion ar y mathau o archwiliadau a oedd yn cael eu cynnal yn yr adran ac ar weithgarwch archwilio a gynhaliwyd.

Cytunodd y 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a buddiannau'r driniaeth.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael digon o wybodaeth ar sut i ofalu amdanynt eu hunain ar ôl eu triniaeth, roedd y 25 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno.

Roedd pob un o'r 26 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am pwy i gysylltu â nhw gael cyngor am unrhyw 'ôl-effeithiau' o'u triniaeth.

Cawsom enghraifft o lythyr a anfonwyd at y cleifion cyn eu hapwyntiad yn yr adran. Gwelsom mai dim ond yn Saesneg yr oedd hwn ar gael ac roeddem o'r farn bod y

ffont yn fach. Gall hyn olygu y bydd pobl â phroblemau golwg yn cael trafferth ei ddarllen.

## Gofal amserol

### Mynediad Amserol

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.

Pan ofynnwyd iddynt pa mor hir yr oeddent wedi gorfod aros, dywedodd 22 o'r 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur eu bod wedi gorfod aros llai na 15 munud i gael eu triniaeth, roedd tri wedi aros rhwng 15 a 30 munud ac roedd dau wedi aros mwy na 30 munud.

Roedd poster wedi'i arddangos a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion y dylent hysbysu'r staff pe byddent wedi bod yn aros am fwy nag 15 munud ar ôl yr amser a drefnwyd ar gyfer eu hapwyntiad. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer da er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion sy'n dod i'r adran yn cael eu gweld.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cael gwybod yn yr adran pa mor hir y byddai'n debygol y byddai'n rhaid iddynt aros, roedd 25 o'r 26 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno ac roedd 1 yn anghytuno.

## Gofal unigol

### Hawliau pobl

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau wrth ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r adran.

Roedd ymwybyddiaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd i'r staff. Cadarnhaodd gwybodaeth a ddarparwyd gan uwch-aelodau o'r staff fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf yn hyn o beth, yr oedd angen ei gwblhau bob tair blynedd.

Dywedodd pob un o'r 27 o gleifion a atebodd yr holiadur eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a

phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), roedd 25 o'r 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn eu bod yn gallu gwneud hynny a dywedodd dau ohonynt eu bod o'r farn nad oeddent yn gallu gwneud hynny.

Ni nododd unrhyw un o'r 28 o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn nac wrth ei ddefnyddio.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer rheoli pryderon a chwynion gan gleifion am eu gofal. Roedd y trefniadau hyn yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella'.

Gwelsom fod posteri'n cael eu harddangos yn glir yn yr adran yn hysbysu'r cleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg am y weithdrefn gwyno i'w dilyn.

Er y gallai'r cleifion roi adborth, dywedwyd wrthym nad oedd adborth wedi cael ei gasglu'n rheolaidd gan y cleifion ers pandemig COVID-19. Cadarnhaodd ein trafodaethau â'r staff fod hwn yn faes i'w wella a nodwyd a bod gwaith yn mynd rhagddo i roi trefniadau addas ar waith yn hyn o beth.

Pan ofynnwyd iddynt am adborth gan gleifion, roedd saith o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod adborth yn cael ei gasglu gan gleifion ac nid oedd tri yn gwybod, roedd tri ohonynt yn cytuno eu bod yn cael diweddariadau am yr adborth ar brofiad y claf, roedd dau yn anghytuno ac nid oedd pump yn gwybod. Pan ofynnwyd a gaiff adborth gan gleifion ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus, roedd chwech yn cytuno ac nid oedd pedwar yn gwybod.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod eu sefydliad yn gweithredu mewn ymateb i bryderon a godir gan y cleifion. Pan ofynnwyd iddynt a yw'r sefydliad yn gweithredu'n gyflym i wneud gwelliannau pan fo angen, unwaith eto, roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o'r staff yn yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu cyn ein harolygiad. Nod y broses hon oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol a gyflwynwyd i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd yr holiadur hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle'r oedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder arnom o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

### Dyletswyddau cyflogwr

#### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith i adnabod yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio yn gywir.

Roedd hyn yn cynnwys manylion y camau i'w cymryd gan staff lle na all cleifion nodi pwy ydynt, fel cleifion sy'n anymwybodol. Yn ogystal, roedd yn mynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hynny lle mae mwy nag un gweithredwr yn rhan o'r cysylltiad.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd i adnabod cleifion yn gywir, a oedd yn cyd-fynd â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Roedd pob un o'r 27 o gleifion a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol.

#### *Unigolion o oedran beichiogi (holi am feichiogrwydd)*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas ag unigolion o oedran beichiogi i sefydlu a yw'r unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a allai hynny fod yn bosibl.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw am y camau y byddent yn eu cymryd i wneud ymholiadau yn hyn o beth, a oedd yn cyd-fynd â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Gwnaethom edrych ar sampl o chwe ffurflen atgyfeirio. Roedd y rhain yn dangos bod gweithredwyr wedi gwneud ymholiadau mewn perthynas â statws beichiogrwydd,

fodd bynnag, nid oedd dwy o'r ffurflenni wedi'u cwblhau'n llawn. Er bod y ddau glaf wedi llofnodi'r ffurflenni i ddangos y gofynnwyd iddynt, nid oedd un o'r ffurflenni yn dangos yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd ac nid oedd y llall wedi'i llofnodi gan y gweithredwr.

#### *Cysylltiadau â delweddu anfeddygol*

Nid oedd cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cael eu cyflawni yn yr adran. Felly, nid ystyriwyd y trefniadau ar gyfer cyflawni'r cysylltiadau hyn yn yr arolygiad hwn.

#### *Canllawiau atgyfeirio*

Roedd gan y cyflogwr ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar gyfer y cysylltiadau i'w cyflawni yn yr adran.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod pob atgyfeiriwr oedd â hawliau wedi cael eu hysbysu ynghylch y canllawiau atgyfeirio hyn yn eu llythyrau hawl. Clywsom eu bod yn gallu cael gafael ar y canllawiau hyn drwy drefniadau fel rhan o'u cyflogaeth â'r GIG yng Nghymru.

#### **Dyletswyddau'r ymarferydd, y gweithredwr a'r atgyfeiriwr**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda.

Dangosodd y sampl o ffurflenni atgyfeirio a archwiliwyd gennym fod atgyfeiriadau wedi'u gwneud yn unol â'r canllawiau atgyfeirio sefydledig. Gwelsom fod y ffurflenni'n cynnwys manylion clinigol digonol a'u bod wedi cael eu cwblhau'n briodol.

Gwnaethom gadarnhau bod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr yn cydymffurfio â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

#### **Cyfiawnhad dros gysylltiadau unigol**

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y prosesau ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol. Roedd y rhain wedi'u nodi yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr cysylltiedig.

Roedd yn amlwg na chaiff cysylltiad meddygol ei gyflawni oni fydd wedi cael ei gyfiawnhau a'i awdurdodi gan yr ymarferydd, neu os bydd gweithredwr yn awdurdodi cysylltiad yn unol â chanllawiau a roddwyd gan yr ymarferydd.

Roedd Canllawiau Awdurdodi Diwygiedig yn hyn o beth, a oedd yn nodi'n glir yr ymarferydd a roddodd y canllawiau ac a oedd yn cynnwys siart lif clir yn amlinellu'r broses i'w dilyn, ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio'r canllawiau.

Ac eithrio'r Canllawiau Awdurdodi Diwygiedig ar gyfer triniaeth nodau lymff sentinel, roedd y sampl y gwnaethom edrych arno yn cynnwys enw'r ffeil, y dyddiad y cytunwyd arno a'r dyddiad adolygu.

Roedd y sampl o ffurflenni atgyfeirio y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod y prosesau uchod wedi cael eu dilyn.

Gwnaethom gadarnhau bod gan ymarferwyr drwydded ddilys er mwyn cyfiawnhau cysylltiadau sy'n cynnwys defnyddio sylweddau ymbelydrol.

### **Optimeiddio**

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y trefniadau ar gyfer optimeiddio'r cysylltiadau a gyflawnir yn yr adran.

Roedd yn amlwg y byddai ymarferwyr a gweithredwyr yn ystyried sicrhau bod y dosau sy'n deillio o gysylltiadau meddygol diagnostig yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff hefyd y modd y mae'r ymarferwyr a'r gweithredwyr yn rhoi sylw penodol i optimeiddio cysylltiadau i unigolion a all fod yn feichiog ac sy'n bwydo ar y fron.

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff enghreifftiau o brotocolau ysgrifenedig perthnasol. Gwnaethom nodi bod cyfeiriadau wedi'u gwneud i ddeiliaid tystysgrif y Pwyllgor Cynghori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol. Dylid diwygio a diweddarau'r protocolau hyn i adlewyrchu gofynion y rheoliadau presennol lle mae'n rhaid i'r ymarferwyr sy'n gweinyddu sylweddau ymbelydrol gael trwydded ymarferydd.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff nad oedd cysylltiadau meddygol i blant a'r rheini sy'n cynnwys dosau uchel i unigolion yn cael eu cyflawni yn yr adran. Felly, ni chafodd y trefniadau ar gyfer cyflawni'r cysylltiadau hynny eu hystyried yn yr arolygiad hwn.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer defnyddio ac adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig a bennwyd ar gyfer archwiliadau pelydr-X. Roedd hyn yn amlwg yn disgrifio'r broses i ddiffinio a defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig yn ymarferol. Er bod gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am lefelau cyfeirio diagnostig meddygaeth niwclear, nid oedd yn cynnwys pa mor aml roeddent yn cael eu hadolygu.

Gwnaethom gadarnhau bod lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u pennu a'u bod yn is na'r lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol. Gwnaethom nodi hyn fel arfer da. Roedd y lefelau cyfeirio diagnostig lleol sefydledig yn cael eu harddangos yn yr ardal baratoi fferyllol glinigol i'r staff gyfeirio atynt.



### *Pediatreg*

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff nad oedd cysylltiadau meddygol i blant yn cael eu cyflawni yn yr adran. Felly, ni chafodd y trefniadau ar gyfer cyflawni'r math hwn o gysylltiadau eu hystyried yn yr arolygiad hwn.

### *Gwerthusiadau clinigol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad ar gyfer pob cysylltiad meddygol a gyflawnir yn yr adran.

Roedd y sampl o ffurflenni atgyfeirio y gwnaethom eu harchwilio yn cynnwys tair ffurflen atgyfeirio ôl-weithredol. Roedd y rhain yn dangos tystiolaeth bod gwerthusiad clinigol amserol wedi'i gwblhau.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith i sicrhau bod rhaglen sicrhau ansawdd yn cael ei dilyn mewn perthynas â'r cyfarpar.

Gwnaethom gadarnhau fod trefniadau addas ar waith gan y cyflogwr ar gyfer cynnal profion derbyn ar gyfarpar newydd, cynnal profion perfformiad rheolaidd a chynnal profion perfformiad ar ôl unrhyw waith cynnal a chadw ar y cyfarpar. Fodd bynnag, roedd y cytundeb trydydd parti ar gyfer gwasanaethau diogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys cymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gyfer sicrhau ansawdd cyfarpar, yn dangos bod y cytundeb hwn wedi dirwyn i ben ym mis Mawrth 2022. Er bod y staff wedi cadarnhau bod y cytundeb hwn yn dal i fod yn weithredol, nid oedd copi o'r cytundeb cyfredol ar gael ar adeg yr arolygiad.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses glir i wella cyfarpar annigonol neu ddiffygiol. Roedd hyn yn cynnwys proses ar gyfer nodi diffygion mewn perthynas â'r cyfarpar, rhoi gwybod amdanynt a'u huwchgyfeirio i uwch-aelodau o'r staff ac ar gyfer cymryd camau cywirol, gan gynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd rhestr o'r cyfarpar sydd wedi'i osod yn yr adran ar gael. Ar gyfer y cyfarpar a restrwyd, roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o dan y rheoliadau wedi'i chynnwys. Fodd bynnag, ni chafodd rhif model y camera gama ei gofnodi. Hefyd, nid oedd y calibradwyr a'r chwiliedyddion gama a ddefnyddiwyd gan yr adran wedi'u rhestru ac roedd y rhestr yn cynnwys cyfarpar a oedd wedi'i dynnu o'r gwasanaeth.

## **Gofal Diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd yr adran yn ymddangos fel petai'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda a'i bod mewn cyflwr da. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg i iechyd a diogelwch y staff sy'n gweithio yn yr adran nac i'r cleifion neu unigolion eraill sy'n ymweld â'r adran.

Roedd arwyddion clir i'r adran o brif fynedfa'r ysbyty ac roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi gallu dod o hyd i'r adran yn hawdd.

Roedd mynediad gwastad i'r ysbyty ac roedd yr adran ar y llawr gwaelod, felly roedd yn hygyrch i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn neu gleifion ag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod yr ardaloedd aros yn ddigon mawr ar gyfer nifer y cleifion sy'n mynychu'r adran. Fodd bynnag, mae ymatebion gan rai cleifion yn dangos bod hwn yn faes y gellid ei wella.

Gwelsom hefyd y gwnaed ymdrech sylweddol i ddarparu amgylchedd dymunol i'r cleifion drwy arddangos gwaith celf a lluniau ym mhob rhan o'r adran.

Roedd arwyddion clir yn hysbysu'r cleifion ac ymwelwyr na ddylid mynd i mewn i'r ardaloedd a reolir pan oedd ymbelydredd ìoneiddio yn cael ei ddefnyddio.

Clywsom fod cleifion a oedd yn ymweld i gael pigladau cyn biopsi nodau sentinel yn cael mynediad i'r adran drwy fynedfa ar wahân gan roi mynediad uniongyrchol i gleifion i'r ystafell archwilio. Cyflwynwyd hyn mewn ymateb i COVID-19 fel mesur diogelwch ac roedd wedi'i barhau er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd pob rhan o'r adran a archwiliwyd gennym yn lân ac yn daclus yr olwg. Gwelwyd bod y cyfarpar yn lân hefyd.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ar gael ac roedd gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r adran. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw bod PPE addas ar gael iddynt.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi.

Gwelsom wybodaeth am y rhagofalon sydd ar waith i leihau lledaeniad COVID-19 a oedd wedi'i harddangos yn glir yn yr adran.

Pan ofynnwyd iddynt pa mor lân roedd yr adran, dywedodd 22 o'r 28 o gleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur ei bod yn 'lân iawn' a dywedodd chwech ei bod yn 'eithaf glân'. Pan ofynnwyd iddynt a oedd mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn, lle y bo'n briodol, dywedodd 22 o'r cleifion a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn cael eu dilyn a dywedodd chwech naill ai nad oeddent yn gwybod neu na wnaethant sylwi.

Pan ofynnwyd iddynt am fesurau atal a rheoli heintiau, roedd pob un o'r deg aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno bod mesurau priodol ar waith. Pan ofynnwyd iddynt am COVID-19, roedd pob un o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad wedi rhoi'r camau amgylcheddol angenrheidiol a chamau sy'n ymwneud â'r practis ar waith i gydymffurfio â gofynion COVID-19.

Roedd y rhan fwyaf o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno y bu cyflenwad digonol o PPE, fodd bynnag, roedd un yn anghytuno. Roedd y naw aelod o staff yn cytuno bod trefniadau dihalogi ar gyfer cyfarpar ac ardaloedd perthnasol.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu a oedd ar waith a ble i gael gafeael arnynt. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn gallu disgrifio'r camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt bryder diogelu.

Roedd diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd i'r staff. Cadarnhaodd gwybodaeth a ddarparwyd gan uwch-aelodau o'r staff fod y rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf yn hyn o beth a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel sy'n addas i'w rôl.

## **Gofal effeithiol**

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

#### *Archwiliadau clinigol*

Darparodd uwch-aelodau o'r staff gopi o'r rhaglen archwiliadau clinigol ynghyd ag enghreifftiau o archwiliadau clinigol a oedd wedi'u cwblhau. Er bod y rhaglen yn cynnwys mewnbwn o amrywiaeth o grwpiau o staff, y gwnaethom eu nodi fel arferion da, nid oedd y staff ffiseg feddygol yn cael eu cynnwys.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o weithgarwch archwilio wedi'i gynnal a disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff sut y gwnaed gwelliannau o ganlyniad i'r gweithgarwch archwilio. Gwnaethom nodi hyn fel arfer da. Fodd bynnag, dylid ystyried datblygu cynlluniau gweithredu ysgrifenedig yn dilyn gweithgarwch archwilio er mwyn dangos

bod dadansoddiad wedi'i gynnal ac er mwyn nodi'r cynlluniau gweithredu a gymerwyd/sy'n ofynnol a gweithgarwch dilynol.

### *Cyngor arbenigol*

Gwnaethom gadarnhau fod y cyflogwr wedi penodi arbenigwyr ffiseg feddygol ac wedi rhoi'r hawl iddynt roi cyngor ar faterion diogelu rhag ymbelydredd a chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer cynnwys yr arbenigwyr ffiseg feddygol mewn cysylltiadau meddygol a oedd yn cael eu cynnal yn yr adran ac iddynt roi cyngor arnynt, a gwelsom enghreifftiau o'r trefniadau hynny. Rhoddwyd enghreifftiau da o'r modd y caiff yr arbenigwr ffiseg feddygol ei gynnwys wrth optimeiddio cysylltiadau.

### *Ymchwil Feddygol*

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod ymchwil sy'n cynnwys cysylltiadau meddygol wedi'i chynnal yn y gorffennol yn yr adran. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, nid oedd yr adran yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch ymchwil.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cysylltiadau meddygol a gynhaliwyd at ddibenion ymchwil.

### **Cadw cofnodion**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r cofnodion a ddefnyddir yn yr adran.

Ar gyfer y sampl o gofnodion atgyfeirio a archwiliwyd gennym, roedd y drefn yn glir ac roeddent wedi'u cwblhau'n llawn ar y cyfan er mwyn dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal i hyrwyddo diogelwch cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron ar-lein i gasglu adborth a barn

gan y staff sy'n gweithio yn yr adran. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Nid atebodd pob aelod o'r staff bob cwestiwn yn yr holiadur.

Roedd yr ymatebion gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r adran meddygaeth niwclear yn darparu gofal o safon uchel i'n holl gleifion. Yn aml, bydd pobl yn diolch i ni ar lafar a byddwn yn cael ambell flwch o ddanteithion gan gleifion. Rydym yn gweithio'n dda fel tîm bach ac fel rhan o rwydwaith ehangach gyda'n cydweithwyr yn Ysbyty Athrofaol Cymru.”*

*“Dim byd i'w nodi, yn fodlon ar yr amgylchedd gwaith a'r tîm ar y cyfan.”*

Gwnaethom ofyn i'r staff beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd awgrymiadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Rwy'n credu y byddai ychydig yn fwy o staff yn gyffredinol o fudd mawr i'r adran.”*

## Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

### Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Prif Weithredwr y sefydliad oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a'r unigolyn hwnnw oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Lle y bo'n briodol, roedd y cyflogwr wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y sefydliad roi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar waith.

Cyflwynodd uwch-aelodau o'r staff fanylion am strwythur y sefydliad. Cafodd llinellau adrodd a chyfrifoldebau clir o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) eu disgrifio a'u dangos.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod trefniadau ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir yn yr adran ac i roi sicrwydd i'r bwrdd iechyd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn fodlon ar ymdrechion y sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel, roedd pob un o'r deg aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno. Yn ogystal, roedd pob un o'r deg aelod o staff yn cytuno mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth eu sefydliad.

Pan ofynnwyd a fyddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio, roedd wyth o'r deg aelod o staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno ac roedd dau yn anghytuno. Hefyd, byddai naw ohonynt yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad ar eu cyfer eu hunain ac roedd un yn anghytuno.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gwybod pwy yw eu huwch-reolwyr, roedd y naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno. Pan ofynnwyd iddynt a yw'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol, roedd saith o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno ac roedd dau yn anghytuno. O'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur, roedd wyth ohonynt yn cytuno fod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion ac roedd un yn anghytuno.

Roedd pob aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu â thasg anodd yn y gwaith a'i fod yn rhoi adborth clir iddynt. Yn ogystal, roedd wyth o'r deg aelod o staff yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith ac roedd dau yn anghytuno.

Pan ofynnwyd iddynt a yw eu sefydliad yn annog gwaith tîm, roedd deg aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod eu sefydliad yn gefnogol.

### **Dyletswyddau'r cyflogwr**

#### *Hawliau*

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses glir ar gyfer hawl deiliaid dyletswydd. Roedd y broses hon cael ei hadlewyrchu yn y weithdrefn ysgrifenedig gan y cyflogwr i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig.

Clywsom fod atgyfeirwyr anfeddygol wedi cael hawl i atgyfeirio cleifion ar gyfer archwiliadau meddygaeth niwclear. Roedd manylion atgyfeiriadau anfeddygol yn cael eu cynnal ar gronfa ddata yn yr adran. Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff adolygiad a oedd yn cael ei gynnal i sicrhau bod y wybodaeth hon yn gyfredol.

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff enghraifft o faes ymarfer un atgyfeiriwr anfeddygol. Rydym yn argymhell y gellid symleiddio'r broses i nodi maes ymarfer unigolion a chadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff bod gwaith yn mynd rhagddo â chynrychiolwyr o sefydliadau eraill y GIG yn hyn o beth.

### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir pryd roeddent wedi cael eu hadolygu neu pryd roedd angen iddynt gael eu hadolygu. Gwnaethom nodi bod dyddiad adolygu rhai polisïau wedi pasio a chadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff eu bod wrthi'n mynd i'r afael â hyn.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses glir i sicrhau ansawdd polisïau a phrotocolau ysgrifenedig. Roedd y broses hon yn cael ei hadlewyrchu yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr i sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig.

Roedd y sampl o weithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a archwiliwyd gennym yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol fel y nodir yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

### *Cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol sylweddol*

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff hefyd drefniadau addas ar gyfer rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r claf neu ei gynrychiolydd am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol o bwys clinigol, ynghyd â chanlyniad dadansoddiad o'r digwyddiad.

Roedd uwch-aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r gofyniad i hysbysu AGIC am ddigwyddiadau o'r fath.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol arwyddocaol ac ymchwilio iddynt. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn yn cynnwys dau gyfeiriad e-bost cyswllt gwahanol ar gyfer AGIC, ac nid oedd un ohonynt yn gyfredol. Rydym yn argymhell y dylid cynnwys dolen i'r dudalen we berthnasol ar gyfer AGIC yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr fel bod gwybodaeth gyfredol ar ofynion adrodd ar gael i'r staff. Gwelsom fod system godio gydnabyddedig yn cael ei defnyddio wrth gofnodi digwyddiadau.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff ddull rhagweithiol o rannu'r hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

Pan ofynnwyd iddynt am ddull y sefydliad o ymdrin â digwyddiadau, roedd pob un o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau. Roedd pob un ohonynt hefyd yn cytuno bod y sefydliad yn trin y staff dan sylw yn deg a bod y sefydliad yn cymryd camau i sicrhau na fyddant yn digwydd eto.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn cael adborth am y newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt, roedd pob un o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno.

Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn gwybod sut i roi gwybod am bryder am arfer anniogel, roedd pob un o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. O'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn, roedd saith ohonynt yn teimlo'n hyderus y byddai eu pryderon yn cael eu hystyried ac nid oedd dau yn gwybod.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arfer anniogel, dywedodd saith o'r naw aelod o staff a atebodd y cwestiwn y byddent a dywedodd dau na fyddent.

## Y Gweithlu

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff fanylion am y nifer o staff a chymysgedd sgiliau'r staff sy'n gweithio yn yr adran. Disgrifiwyd bod system cylchdroi staff yn yr adran ar waith. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda a bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth.

Clywsom fod nifer y radiolegwyr a lefel y cymorth gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn ddigonol i gynnal y gwasanaeth a ddarperir ar y funud. Clywsom hefyd, er bod ymrwymiad i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach, nad oedd capasiti staff i gyflawni hyn ar y pryd.

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn cytuno bod digon o staff iddynt allu gwneud eu gwaith yn briodol, roedd saith o'r deg aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno ac roedd tri yn anghytuno.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff, mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol), ar gyfer tri aelod o staff sy'n gweithio i'r adran. Roeddent yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w maes gwaith a bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu.

Edrychwyd hefyd ar gofnodion hyfforddiant y staff mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol. Roeddent yn dangos bod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau. Gwelsom lefel dda o gydymffurfio ar gyfer rhaglen hyfforddiant staff gorfodol y sefydliad.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Hefyd, roedd pob aelod o'r



staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod eu hyfforddiant wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, i gyflawni'r gofynion proffesiynol diweddaraf ac i roi gwell profiad i'r cleifion.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd eu gwaith yn cael ei arfarnu, cadarnhaodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd anghenion hyfforddiant, dysgu neu ddatblygu yn cael eu nodi, cadarnhaodd saith aelod o'r staff hyn a dywedodd pob un o'r saith wrthym fod eu rheolwr wedi'u cefnogi i gael hyfforddiant, dysgu neu ddatblygiad o'r fath.

O'r saith aelod o staff a atebodd y cwestiynau yn yr holiadur, roedd chwech yn cytuno bod y staff yn cael cyfleoedd teg a chyfartal i fanteisio ar gyfleoedd yn y gweithle ac roedd un yn anghytuno. Roedd pob un o'r saith aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr holiadur yn cytuno bod eu gweithle yn cefnogi cyfartaledd ac amrywiaeth.

Er bod chwe aelod o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno nad yw eu gwaith yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, roedd tri yn anghytuno. Hefyd, pan ofynnwyd iddynt a yw'r sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, roedd saith yn cytuno ac roedd dau yn anghytuno.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno bod eu patrwm gweithio/cyfnodau oddi ar ddyletswydd presennol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, roedd chwe aelod o staff a gwblhaodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur yn cytuno ac roedd tri yn anghytuno.

O'r naw aelod o staff a gwblhaodd y cwestiwn hwn yn yr holiadur, roedd wyth ohonynt yn cytuno eu bod yn cael cynnig cymorth llawn pan fydd sefyllfaoedd heriol yn codi ac roedd un yn anghytuno.

Dywedodd pob un o'r naw aelod o staff a gwblhaodd y cwestiwn yn yr holiadur eu bod yn ymwybodol o'r cymorth lechyd Galwedigaethol sydd ar gael iddynt.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

## Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Athrofaol Llandochau

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Athrofaol Llandochau

Dyddiad yr arolygiad: 11 a 12 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i helpu'r cleifion adnabod staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio yn yr adran.</p> <p>Mae angen ystyried y canllawiau ar gyfer gwasanaethau iechyd, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyflawni'r 'Cynnig Rhagweithiol'</p>	Safon 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Dylid defnyddio ffont mwy o faint ar lythyrau apwyntiadau a dylai llythyrau apwyntiadau gael eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Caiff hyn ei weithredu fesul cam oherwydd y nifer mawr o archwiliadau â gofynion paratoi gwahanol cyn yr archwiliad. Bydd cam un yn cynnwys cyhoeddi'r llythyr apwyntiadau yn unig yn Gymraeg. Bydd cam dau yn cynnwys cyhoeddi'r llythyr paratoi cleifion hefyd yn Gymraeg.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Cam un 28/02/2023  Cam dau 30/6/23

		<p>Dylid diwygio llythyrau apwyntiadau i roi gwybod i gleifion, os ydynt am i'w harchwiliad gael ei gynnal yn Gymraeg, y dylent gysylltu â'r adran ymlaen llaw i sicrhau y gellir cyflawni hyn, neu fel arall caiff hyn ei gyflawni ar y diwrnod pan fo hynny'n bosibl. Mae'r arwyddion presennol yn yr adran eisoes yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' drwy nodi bod yr aelodau o'r staff sy'n gwisgo emblem ar eu gwisg, laniard neu fathodyn yn siarad Cymraeg.</p>	<p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>28/02/2023</p>
<p><b>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd ati i gael adborth gan gleifion ar eu profiadau o ymweld â'r Adran Meddygaeth Niwclear ac i rannu hyn â'r staff perthnasol.</b></p>	<p>Safon 6.3 Gwrando ar Adborth a Dysgu ohono</p>	<p>Lluniwyd fersiwn ddrafft o'r arolwg o brofiad y claf gan gynnwys tîm adborth profiad y claf y Bwrdd Iechyd. Caiff yr arolwg ei gynnal fel cynllun peilot â ffocws i ddechrau gan ddefnyddio cod QR ac ar ffurf papur i nodi effeithiolrwydd cyn cael ei gyflwyno drwy'r adran.</p>	<p>Prif Radiograffydd QSE</p>	<p>Cwblhau'r peilot - 28/02/2023</p> <p>Bydd gwaith yn mynd rhagddo i'w weithredu drwy'r adran Radioleg</p>

		<p>Caiff canlyniadau pob arolwg yn y dyfodol ac unrhyw gamau dilynol eu rhannu drwy bosteri gwybodaeth i gleifion a staff. Caiff canlyniadau eu rhannu hefyd yn y fforwm Diogelwch ac Ansawdd Radioleg.</p> <p>Caiff amserlen gylchdro ei datblygu yn dilyn gwerthusiad o'r arolwg peilot i geisio adborth cleifion</p> <p>Mae system Civica wedi'i rhoi ar waith bellach ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd a chaiff codau QR eu harddangos ym mhob ardal glinigol i alluogi cleifion i ddefnyddio'r system a rhoi adborth</p>	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad y Claf	<p>yn dilyn yr arolwg peilot</p> <p>01 Chwefror 2023</p>
<b>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn</b>	Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)	Nodyn i atgoffa staff eu bod wedi cydanbod yn flaenorol y byddant yn darllen Gweithdrefnau'r Cyflogwr ac yn cydymffurfio â nhw.	Pennaeth Radiograffi Proffesiynol / Prif Radiograffydd QSE	Wedi'i gwblhau

<p>perthynas â chofnodi ymholiadau i unigolion a allai fod yn feichiog.</p>	<p>Rheoliad 6 2</p>	<p>Cynnal archwiliadau ac arsylwadau ôl-weithredol rheolaidd yn amlach ar gyfer staff lle na chaiff lefelau cydymffurfiaeth eu bodloni. Caiff pob cam ei gofnodi a'i fonitro. Monitro ynghyd ag archwiliadau o gydymffurfiaeth reoliadol. Monitro drwy gyfarfodydd cydymffurfiaeth rheoliadol y bwrdd clinigol.</p>	<p>Uwch-arolygwyr moddolrwydd / Pennaeth Radiograffi Proffesiynol</p>	<p>Ar waith a chaiff ei fonitro bob mis gan addasu'r amllder yn unol â'r lefel o gydymffurfiaeth</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC ynglŷn â'r camau a gymerwyd i ddiwygio protocolau ysgrifenedig er mwyn iddynt adlewyrchu gofynion y rheoliadau presennol lle mae'n rhaid i'r ymarferwyr sy'n gweinyddu sylweddau ymbelydrol gael trwydded ymarferydd.</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Rheoliad 6 4</p>	<p>Diweddau'r protocolau i gynnwys gofynion y rheoliadau presennol lle mae'n rhaid i'r ymarferwyr sy'n gweinyddu sylweddau ymbelydrol gael trwydded ymarferydd.</p> <p>Rhannu dogfennau diwygiedig â'r staff drwy system rheoli dogfennau a lle y bo'n gymwys, mae'n ofynnol i'r staff gydnabod eu bod wedi'u darllen.</p>	<p>Uwch-arolygydd Meddygaeth Niwclear</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>



<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr gadarnhau ag AGIC bod y cytundeb trydydd parti mewn perthynas â gwasanaethau diogelu rhag ymbelydredd, gan gynnwys cymorth gan ARbenigwr Ffiseg Feddygol, yn gyfredol a bod copi ar gael i'w ddarllen ar gais.</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Rheoliad 14 1</p>	<p>Diweddaru a llofnodi cytundeb rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Diogelu Rhag Ymbelydredd.</p> <p>Cytunwyd y bydd y gwasanaethau diogelu rhag ymbelydredd yn parhau ac mae hyn ar waith. Cyflwynwyd y cytundeb gwasanaeth i'r gwasanaeth diogelu rhag ymbelydredd i'w gymeradwyo'n derfynol</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>31/01/23</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi cadarnhad i AGIC bod y rhestr cyfarpar wedi'i hadolygu a'i diweddaru i sicrhau bod pob gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar gyfer yr holl gyfarpar perthnasol a ddefnyddir gan yr adran.</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Rheoliad 15 1(b), 2</p>	<p>Adolygu a diweddau'r rhestr cyfarpar pan fydd angen.</p> <p>Mae adolygiad blynyddol ar waith ar hyn o bryd, a chaiff cyfarpar newydd ei ychwanegu pan gaiff ei osod/ei gaffael am y tro cyntaf.</p>	<p>Uwch-arolygydd Safle / Uwch-arolygydd Meddygaeth Niwclear</p>	<p>31/12/2022</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio</p>	<p>Mae adolygiad yn mynd rhagddo o dempledi archwilio a fydd yn cynnwys ychwanegu cynllun</p>	<p>Prif Radiograffydd QSE / Pennaeth Radiograffi Proffesiynol</p>	<p>28/02/2023</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu cynlluniau gweithredu ysgrifenedig yn dilyn gweithgarwch archwilio er mwyn dangos bod dadansoddiad wedi'i gynnal ac er mwyn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd/sy'n ofynnol a gweithgarwch dilynol.</li> <li>• Cynnwys staff ffiseg feddygol yn y rhaglen archwiliadau clinigol</li> </ul>	<p>(Cysylltiad Meddygol) Rheoliad 8 3</p>	<p>gweithredu lle nad yw hyn eisoes ar waith.</p> <p>Gwahoddir staff ffiseg feddygol i fod yn bresennol ac i gymryd rhan yng nghyfarfod Diogelwch ac Ansawdd Radioleg. Yn y rhaglen Archwiliadau Clinigol o Feddygaeth Niwclear, bydd gofyniad am o leiaf ddau archwiliad clinigol bob blwyddyn.</p>	<p>Arbenigwr Ffiseg Feddygol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i ddiweddarau gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• EP F (Arsylwi a Monitro Lefelau Cyfeirio Diagnostig - dylai Lefelau Cyfeirio Diagnostig gynnwys gwybodaeth gyfatebol ar gyfer meddygaeth niwclear fel ar gyfer radioleg cyffredinol</li> </ul>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Rheoliad 6 1 Atodlen 2 1(f), 1(l)</p>	<p>Diweddarau gweithdrefn F i gyflogwyr i gynnwys amllder archwiliadau o Feddygaeth Niwclear.</p> <p>Diweddarau gweithdrefn L i gyflogwyr i gynnwys y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC.</p>	<p>Pennaeth Radiograffi Proffesiynol / Prif Radiograffydd QSE</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<ul style="list-style-type: none"> <li>• EP L (Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol sy'n Arwyddocaol yn Glinigol) - rhaid iddynt gael eu diwygio er mwyn dileu cyfeiriad at gyfeiriad e-bost anghywir ar gyfer AGIC</li> </ul>				
<p>Mae'n ofynnol i'r cyflogwr roi manylion i AGIC ynglyn â'r camau a gymerwyd i adolygu'r polisiâu hynny y mae eu dyddiad adolygu wedi pasio.</p>	<p>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) Rheoliad 6 Atodlen 2</p>	<p>Polisiau wedi'u diweddarau a'u cymeradwyo drwy strwythurau priodol y Llywodraeth.</p> <p>O fewn Radioleg, gan gynnwys Meddygaeth Niwclear, caiff system rheoli dogfennau ei defnyddio ac mae'n hysbysu o ddyddiadau adolygu dogfennau sydd ar y gweill.</p>	<p>Pennaeth Radiograff Proffesiynol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Alicia Christopher

**Teitl swydd:** Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth

**Dyddiad:** 21/12/22